Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Arolygiaeth Gofal Cymru

# Cod ymarfer awdurdodau lleol







Fersiwn hawdd ei ddarllen

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ydyn ni



Rydyn ni'n sicrhau ansawdd a diogelwch gofal cymdeithasol a gofal plant.


Rydyn ni'n sicrhau bod gwasanaethau'n ddiogel drwy:




- Gadw cofrestr o bob gwasanaeth



- Arolygu gwasanaethau



- Cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau




Mae'r gyfraith yn dweud y gallwn ni edrych ar wasanaethau gofal cymdeithasol Awdurdodau Lleol. Mae ein cod ymarfer ni'n dweud sut y byddwn ni'n gwneud hyn. Rydyn ni'n ceisio:



- gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu ymddiried yn ansawdd y gwasanaethau a chael gafael ar wasanaethau'n hawdd.



- Gwneud yn siŵr bod plant ac oedolion yn ddiogel a bod eu hawliau'n cael eu gwarchod.



- Gwneud gofal yn well




- Gwneud yn siŵr fod pawb yn cael gwybodaeth dda i wneud polisïau da.

# Syt rydym yn gweithio



Rydym wedi newid y ffordd rydyn ni'n gweithio gydag awdurdodau lleol.



Nawr, rydyn ni'n gweithio wyneb yn wyneb ac ar-lein.



Rydyn ni wedi meddwl am sut rydyn ni'n gweithio ac nawr rydyn ni'n gweithio'n well.



Rydyn ni wedi diweddaru ein cod ymarfer a'n hegwyddorion ni.

# Dyma ein hegwyddorion newydd ni:



**Rhoi pobl yn gyntaf**

**Cael ein harwain gan wybodaeth.**



Mae hyn yn golygu ein bod ni'n gwneud ein penderfyniadau ar sail y pethau rydyn ni'n darganfod.

**Bod yn seiliedig ar risg ac yn ymatebol.**




Mae hyn yn golygu deall pryd y gallai rhywbeth fynd o'i le a bod yn barod i roi cymorth i'w gywiro.



**Gweithio ar y cyd**



**Cefnogi gwelliant a meddwl am ffyrdd gwell o weithio**



**Myfyrio a dysgu**

Mae hyn yn golygu edrych ar yr hyn sydd wedi cael ei wneud a gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud yn well.


# Adolygiad o berfformiad



Dyma sut rydyn ni'n sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithio'n dda.




Rydyn ni'n ceisio gwirio pob awdurdod lleol bob blwyddyn.




Rydyn ni'n rhannu adroddiad am beth rydyn ni'n ei ddarganfod.



**Arolygiad gwerthuso perfformiad**

Arolygiad llawn o gyngor yw hwn.

Rydyn ni'n edrych ar wasanaethau oedolion a phlant.

Rydyn ni'n gwneud hyn bob 5 mlynedd.



## Gwirio ansawdd

Rydyn ni'n gwneud hyn rhwng arolygiadau.


Rydyn ni'n rhannu llythyr am yr hyn rydyn ni'n ei ddarganfod.




## Gwirio gwelliannau

Rydyn ni'n gwneud y rhain i wirio bod pethau wedi gwella ar ôl arolygiad.

Rydyn ni'n rhannu llythyr am yr hyn rydyn ni'n ei ddarganfod.




## Adolygiad thematig

Rydyn ni'n edrych ar bwnc neu thema.

Rydyn ni'n ymweld ag awdurdodau lleol ar draws Cymru.

Rydyn ni'n rhannu adroddiad am beth rydyn ni'n ei ddarganfod.

# Sut rydyn ni'n gwneud arolygiadau



Mae ein harolygiadau yn edrych ar ba mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yn helpu pobl i gael bywydau da.



Pan fyddwn ni'n gwneud arolygiad rydyn ni'n casglu tystiolaeth:



- **Beth rydyn ni'n clywed**
    - Rydyn ni'n siarad â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau
    - Staff
    - Rheolwyr
    - Pobl eraill maen nhw wedi gweithio gyda nhw



- **Beth rydyn ni'n gweld**




- **Beth rydyn ni'n darllen**

  Rydyn ni'n edrych ar gofnodion ac adroddiadau.



Rydyn ni'n meddwl am ba mor dda yw'r bobl sy'n gyfrifol am wasanaethau.



Pan rydyn ni wedi gwneud ein hymweliadau, rydyn ni'n ysgrifennu adroddiad neu lythyr.



Efallai y byddwn ni'n gweld rhywbeth sy'n gwneud pobl yn anniogel neu'n eu rhoi nhw mewn perygl.



Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod yr awdurdod lleol yn cymryd camau i gywiro hyn.




Rydyn ni'n gwirio pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r Gymraeg yn eu holl wasanaethau nhw.



Rydyn ni'n dweud wrth bawb am y gwaith da rydyn ni'n ei ddarganfod fel y gallan nhw ddysgu ohono.



Rydyn ni'n dweud wrth Lywodraeth Cymru am yr hyn rydyn ni'n ei ddarganfod yn ein harolygiadau.



Rydyn ni'n edrych ar sut mae awdurdodau lleol yn dysgu ac yn gwella eu gwasanaethau.



Rydyn ni eisiau siarad â phobl am eu profiadau. Mae hyn yn bwysig.
Mae profiadau pobl o wasanaethau yn ein helpu ni i ddeall gwasanaethau'n well.




Rydyn ni'n gwirio pa mor dda mae awdurdodau lleol yn siarad gyda'r bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau.



Os bydd awdurdod lleol yn dweud wrthyn ni am waith da byddwn ni'n darganfod mwy amdano.

Byddwn ni'n rhannu hyn ar draws Cymru er mwyn gwneud yn siŵr bod pawb yn cael gwasanaeth gwell.



Rydyn ni'n mynd i gyfarfodydd y cyngor i wrando ar beth maen nhw'n siarad amdano.


# Ein Harolygwyr



Mae ein harolygwyr i gyd wedi gweithio mewn swyddi iechyd neu ofal cymdeithasol gwahanol.



Mae'r arolygwyr yn weision sifil.




Mae gweision sifil yn dilyn cod y gwasanaeth sifil.

Mae'r rhain yn rheolau i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud y gwaith gorau.



Mae'n rhaid i arolygwyr ddilyn y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol hefyd.

# Gweithio gyda phobl eraill i wella gwasanaethau



Rydyn ni'n gweithio gydag arolygwyr eraill yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig.



Mae gweithio gyda'n gilydd yn gwneud awdurdodau lleol yn well i bawb.



Rydyn ni'n gweithio gydag:

- Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi
- Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi
- Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi.



Rydyn ni'n gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i wneud gwasanaethau gofal cymdeithasol yn well.



Mae gan bob rhan o Gymru Fwrdd Partneriaeth rhanbarthol.



Mae gan y byrddau weithiwr sy'n sicrhau bod y bwrdd yn gweithio gyda ni.



Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y byrddau rhanbarthol yn gwneud eu gorau ar gyfer pobl.



Dydyn ni ddim yn gallu edrych ar gwynion am berson neu am wasanaeth maen nhw'n ei dderbyn.



Rydyn ni'n edrych ar wasanaethau pan fydd pryderon yn cael eu codi.

# Gwneud yn siŵr bod pethau'n cael eu gwneud yn well



Weithiau rydyn ni'n gweld gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg yn wael.



Rydyn ni'n mynd yn ôl at y rhain i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud yn well.

Gwiriad gwella yw hwn.



Weithiau mae awdurdod lleol yn methu â gwneud popeth y mae'r gyfraith yn dweud y dylai ei wneud.



Mae 2 lefel:

- Pryder difrifol
- Pryder difrifol a sylweddol.




Pryderon difrifol yw:

Canlyniadau pobl neu staff a rheolwyr sydd ddim yn ddigon da.



Pryderon difrifol a sylweddol yw:

Pan fydd awdurdod lleol yn methu mewn llawer o feysydd. Mae hyn yn golygu:

- y gallai pobl fod mewn perygl
- bod pobl yn cael canlyniadau gwael o'r gwasanaeth.

Byddwn yn cwrdd â rheolwyr o awdurdodau lleol. Byddwn ni'n:



- Dweud wrthyn nhw pam rydyn ni wedi dweud eu bod nhw'n methu
- Gwneud yn siŵr fod ganddyn nhw gynllun i wneud pethau'n well
- Cynnal gwiriadau gwella rheolaidd
- Gwneud gwaith monitro ychwanegol.



Rydyn ni'n dweud wrth awdurdodau lleol am wasanaethau eraill sy'n gwneud y gwaith gorau ac sy'n rhannu ffyrdd da o weithio.


# Ein hadroddiadau ni




Rydyn ni'n ysgrifennu adroddiadau ar:



- Arfer da



- Beth sy'n rhaid ei wella



- Beth ddylai ei wella

ISBN 978-1-83504-088-1